Y Weithdrefn Gwyno

Yn unol â Deddf Cyflogaeth 2008 a Deddf Hawliau Cyflogaeth 1999 (diwygio) mae gennych hawl statudol i godi'ch cwyn drwy weithdrefn gwyno deg a phriodol. Mae'r Brifysgol yn anelu at sicrhau y ceir canlyniad boddhaol ac y dilëir ffynhonnell y gwrthdaro cyn belled ag y gellir drwy ddefnyddio'i Gweithdrefn Gwyno.

Ar unrhyw adeg yn ystod y Weithdrefn Gwyno mae gennych hawl i gael cwmni cydweithiwr o'ch dewis neu'ch cynrychiolydd Undeb Llafur neu i gael eich cynrychioli ganddynt. Bydd Adnoddau Dynol yn rhoi cyngor yn ôl y gofyn a gellir ymgynghori â nhw ar unrhyw adeg i gael cyfarwyddyd.

1. Staff ar Raddfa 6 ac uwch

Cynhwysir y weithdrefn gwyno sydd i'w defnyddio ar gyfer staff ar Raddfa 6 ac uwch yn Statud 26.

2. Staff Graddfeydd 1-6

Bydd y weithdrefn ganlynol yn gymwys os ydych wedi eich cyflogi ar Raddfeydd 1-5 dan yr amodau gwasanaeth.

3. O dan amodau arferol fel cyflogai gyda chwyn bersonol ynghylch eich telerau a'ch amodau cyflogaeth, byddwch yn trafod y mater yn bersonol gyda'ch rheolwr llinell uniongyrchol yn y lle cyntaf.

(i) Os nad ydych yn fodlon, dylech chi, neu gynrychiolydd o'ch dewis, godi'r mater gyda'ch rheolwr llinell a fydd, cyn gynted ag y gellir, yn cyfarfod â chi ynghyd â'ch cynrychiolydd, os dymunir, i geisio datrys y mater.

Os na chaiff y mater ei ddatrys, dylid ei gyfeirio at gynrychiolydd o'ch dewis, a all fod yn gynrychiolydd i Undeb Llafur cydnabyddedig a benodwyd at y diben, ac Is-Ganghellor y Brifysgol .

(ii) Os yw'r mater yn dal heb ei ddatrys, dylid rhoi hysbysiad ysgrifenedig i Is-Ganghellor y Brifysgol er mwyn i'r gŵyn cael ei chyfeirio i gael ei datrys gan yr Is-Ganghellor a'r Brifysgol ynghyd â chi a'ch cynrychiolydd. Os na all y mater gael ei ddatrys, cewch symud y mater yn ei flaen drwy ddefnyddio'r Weithdrefn ar gyfer Materion Unigol, Adrannol a Chyfun sydd heb eu Datrys ar y Lefel Leol.

4. Yn achos mater sy'n effeithio ar grŵp o staff yn un o adrannau'r Brifysgol, dylech chi, a'ch cydweithwyr, ddefnyddio'r weithdrefn ganlynol:-

(i) Dylid codi'r mater yn y lle cyntaf gan gynrychiolydd enwebedig yr adran gyda'r Rheolwr Llinell/Cyfarwyddwr.

(ii) Os na chaiff y mater ei ddatrys o dan (i) gall gael ei godi'n ffurfiol gyda'r Is-Ganghellor.

(iii) Os yw'r mater yn dal heb ei ddatrys o dan (ii), dylid rhoi hysbysiad ysgrifenedig i'r Is-Ganghellor er mwyn i'r gŵyn gael ei chyfeirio i gael ei datrys rhwng yr Is-Ganghellor, cynrychiolwyr eich Undeb Llafur a chynrychiolwyr y Brifysgol .

Os yw'r mater yn dal heb ei ddatrys, gall gael ei godi o dan y Weithdrefn ar gyfer Materion Unigol, Adrannol a Chyfun sydd heb eu Datrys ar y Lefel Leol.

5. Os yw'r materion yn gyffredinol ac yn effeithio ar rai neu'r holl grwpiau o staff o fewn categori o staff sy'n dod o dan y Cytundeb hwn, rhaid iddynt gael eu codi yn ysgrifenedig yn y lle cyntaf gan gynrychiolydd undeb priodol a/neu swyddog amser-llawn lleol yr Undeb Llafur, gyda'r Is-Ganghellor. Yna cyfeirir y mater i gael ei negodi yn uniongyrchol rhwng y Brifysgol a'r Undeb.

6. Y Weithdrefn ar gyfer Anghydfodau dros Faterion Unigol, Adrannol neu Gyfun sydd heb eu Datrys ar y Lefel Leol.

Ar ôl dihysbyddu'r gweithdrefnau a amlinellir uchod, os nad oes setliad wedi ei gael, bydd y mater - os yw'n ymwneud â chwestiynau ynghylch dehongli cytundebau a wnaed ar y lefel genedlaethol - yn symud ymlaen i (i) a (ii) isod. Er hynny, os yw'r mater y tu allan i gwmpas cytundebau cenedlaethol o'r fath, yna bydd y Brifysgol a'r undeb o dan sylw naill ai yn cyfarfod o fewn 14 diwrnod gwaith i ystyried posibilrwydd defnyddio'r peirianwaith cymodi sydd ar gael yn lleol (e.e. ACAS), neu yn cyd-gytuno i ddefnyddio peirianwaith y Cyngor fel y'i nodir isod: -

(i) Codir y mater gydag Ysgrifenyddion Pwyllgor priodol y Cyngor a all, yn ôl eu disgresiwn, fynd ati ar unwaith i enwebu cyd-is-bwyllgor i edrych ar y gŵyn neu ei chyfeirio at gyfarfod nesaf Pwyllgor priodol y Cyngor i gael ei datrys.

(ii) Os methir â chyrraedd cytundeb o dan (i), gall y mater gael ei gyfeirio at gyfarfod o'r Cyngor drwy'r Ysgrifennydd priodol.

Os na all y Cyngor ddatrys y mater yng ngham (i) neu (ii) a/neu os yw'r ddau barti yn cytuno – gall y mater gael ei gyfeirio at gymodi neu gymrodeddu ar y lefel genedlaethol drwy ACAS, neu fel y cytunir fel arall gan y ddau barti.